**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Yr Ysgrifennydd Parhaol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Nick,

01 Mehefin 2017

Yn ystod fy sesiwn ragarweiniol gyda'r Pwyllgor ar 13 Mawrth 2017 gofynnodd Mr Lee Waters AC imi am yr heriau y bydd digideiddio yn dod â hwy i Lywodraeth Cymru a pharodrwydd y sefydliad i ymateb iddynt. Addewais ysgrifennu yn ôl ar ôl rhoi ystyriaeth ddwys i'r mater pwysig hwn.

**Cefndir**
Yn 2014 cymeradwyodd Bwrdd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Digidol cyntaf y sefydliad (2014-2017). Aeth y cynllun ati i wella gwybodaeth a gwasanaethau digidol Llywodraeth Cymru, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan, gweler dolen er cyfleuster i'r Pwyllgor; http://gov.wales/topics/science-and-technology/digital/public-services/digital-first/?lang=cy

Yn 014, asesodd Llywodraeth Cymru ei hun fel Lefel 2 ar y Fframwaith Galluogrwydd Digidol [1] - “senior management in place with a remit to set targets, develop over-arching vision and plan, and develop necessary capability and culture. Digital is seen as a key transformation tool and advocacy is strong at key parts of the organisation.”

Ers hynny gwnaed camau breision. Rydym wedi penodi Prif Swyddog Digidol a chreu tîm strategaeth, sefydlu Grŵp Digidol a Data o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth i ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad, gweithredu rhaglen dysgu digidol i staff a chyflwyno ystod o wasanaethau digidol newydd a gwell.

[1] Addaswyd o'r Fframwaith a gyhoeddwyd yn UK Government Digital Strategy a'r Digital Capability Framework a gyflwynwyd gan Kieran O'Hea (Digitigm) i gyfnod ymgynghori'r Agenda Ddigidol ar gyfer Ewrop.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Yn ein barn ni rydym bellach wedi cyrraedd Lefel 4 o'r Fframwaith Galluogrwydd Digidol - "senior management making significant progress in delivering the vision and plan. Processes across the organisation have been converted to digital, providing tangible benefits and efficiencies. Advocacy is increasing." Ers 2010 rydym yn anelu at fod ar lefel 5 - "digital is at the heart of policy and strategy, contributing to all business processes and objectives. Digital culture is strong: agile, user-centred, innovative, and responsive."

Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Digidol (2014-2017) bron wedi'u cwblhau a chydnabuwyd bod angen cynllun ar ei newydd wedd. Yn Ebrill 2017, ystyriodd Bwrdd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu Digidol (2017-2020) sydd bellach yn cael ei baratoi'n derfynol.

Bydd y Cynllun Gweithredu Digidol (2017-2020) yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'n hamcanion a'r camau yr ydym wedi'u cynllunio, felly nid wyf am achub y blaen arno yn ormodol yma. Er hynny, hoffwn ehangu ar bedair thema a godwyd yn benodol yn ystod fy sesiwn ragarweiniol gyda'r Pwyllgor: meddylfryd digidol; sgiliau arbenigol; galluogi busnes da yn y Llywodraeth; a data mawr. O gofio'r ymosodiadau seiber eang yn ddiweddar, hoffwn gyflwyno sylwadau ar gadernid.

**Meithrin meddylfryd digidol**
Ers llawer o flynyddoedd bu gan dechnolegau digidol effaith fawr ar y ffordd y mae pobl yng Nghymru'n byw, gan gynnwys sut y maent yn cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau cyhoeddus, a bydd yr effaith hon yn parhau wrth gwrs. Mae Symud Cymru Ymlaen yn datgan: 'Mae angen inni fynd yn ddigidol o ran ein darpariaeth o wasanaethau llywodraethol.' Mae deall y cyfleoedd a ddaw yn sgil y technolegau hyn i'r Llywodraeth yn rhan hanfodol o'r sgiliau y mae ar weision sifil modern eu hangen.

Yn ystod y drafodaeth â'r Pwyllgor, soniwyd am y gwaith rhagorol sy'n cael ei gyflawni gan rai o swyddfeydd trafodiadol mawr Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu nifer bach o wasanaethau trafodiadol uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae gan Lywodraeth Cymru 22 o wasanaethau digidol byw ar hyn o bryd, ac rydym yn cynnal dros 100 o wefannau. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran digideiddio gwasanaethau, er enghraifft *Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein* sy'n caniatáu i 18,000 o ffermwyr ymgeisio am daliadau a'u rheoli ar-lein. Mae *Hwb* (hwb.cymru.gov.uk), sy'n cynnal casgliad cenedlaethol o offer ac adnoddau digidol i gefnogi rhieni, athrawon a phlant yng Nghymru'n enghraifft eithriadol o ddatblygu a darparu gwasanaethau ar-lein; mae Cymru ar y blaen i weddill y DU yn hyn o beth. Mae technolegau digidol hefyd yn herio'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â dinasyddion. Mae ein *Digwyddiadau'r Sgwrs Go Iawn,* a ddefnyddir i ddatblygu Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, 2016-2020, yn enghraifft dda, ac mae sianeli ymgysylltu


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel : 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • website: www.gov.wales

digidol ar gyfer Tasglu'r Cymoedd yn fyw yn awr - gweler Twitter, #TrafodyCymoedd #TalkValleys.

Er bod enghreifftiau cryf o waith a arweinir yn ddigidol, mae gwella sgiliau a galluogrwydd yn y maes hwn yn flaenoriaeth barhaus. Fel rhan o Gynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru (2014-2017), sefydlwyd rhaglen dysgu digidol ar gyfer y staff. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyrsiau dechreuol a chanolradd ym maes ymwybyddiaeth ddigidol; cyrsiau sy'n canolbwyntio ar ffyrdd '*Agile*' o weithio; a dosbarth meistr arweinyddiaeth ddigidol ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil a bandiau gweithredol Mae mwy na 500 aelodau o staff wedi mynychu dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae rhagor o gyrsiau ar y gweill. Mae dysgu yn y dosbarth yn cael ei gefnogi gan fodiwlau hyfforddi ar-lein, cyfleoedd cyfnewid, a sesiynau 'dysgu dros ginio' mwy anffurfiol.

Un o'm blaenoriaethau cynnar fel Ysgrifennydd Parhaol yw sicrhau bod gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'r sgiliau a'r galluogrwydd y mae arni eu hangen at y dyfodol. Cyn hir byddaf yn lansio ymarfer ymgysylltu ar draws y sefydliad i nodi ein bylchau sgiliau. Er hynny cyn i'r data hwnnw ddod i'r amlwg, rwyf eisoes wedi cytuno â'r Uwch Dîm y bydd sgiliau polisi, arweinyddiaeth, a sgiliau digidol yn elfen graidd ar raglen dysgu corfforaethol newydd i staff.

**Sgiliau digidol arbenigol**

Yn ogystal â'r hyn y gellid ei ddisgrifio'n Weision Sifil 'cyffredinol' sy'n gweithio ar lunio a darparu polisi, mae gan dros 100 o aelodau o staff Llywodraeth Cymru rolau digidol a TGCh sy'n gofyn am sgiliau a chymwysterau arbenigol, megis rhaglenwyr, arbenigwyr cymorth TG, a dylunwyr y we. Mae'n glir bod manteision posibl trwy leihau dibyniaeth ar gontractwyr allanol am y math hwn o waith, o safbwynt cost, diogelwch a chynaliadwyedd. Mae dod â sgiliau arbenigol i mewn i'r sefydliad yn aml yn gofyn am recriwtio'n allanol yn hytrach nag ailhyfforddi, ac ar adeg o gyfyngiadau tyn o ran adnoddau mae'n glir bod hon yn her anodd. Er hynny, mae'r Prif Weinidog yn cydnabod y bydd angen defnyddio'r dull gweithredu hwn yn achos rhai sgiliau allweddol.

Yn Ebrill 2017, cytunodd panel recriwtio allanol y sefydliad i benodi deg o bobl â sgiliau digidol arbenigol i'w lleoli ar draws adrannau. Bydd cynllun prentisiaethau nesaf Llywodraeth Cymru yn cynnwys carfan ddigidol. Rydym hefyd yn dod â phrentisiaid i mewn i'r sefydliad mewn partneriaeth â'r ONS. Yn y tymor hwy, bydd angen i gynllunio'r gweithlu ar gyfer rolau digidol gael ei gynnwys yng ngwaith ehangach Llywodraeth Cymru ar gynllunio'r gweithlu. Mae grŵp gweithlu digidol ar draws y sefydliad wedi cael ei sefydlu i gefnogi hyn.


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel : 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • website: www.gov.wales

**Galluogi busnes da yn y Llywodraeth**

Yn ystod fy sesiwn ragarweiniol siaradais am y cyfleoedd y mae technolegau digidol yn eu cynnig i gefnogi ffyrdd gwell o gyflawni hanfodion busnes y llywodraeth - roedd gennyf mewn golwg gweithio'n effeithiol fel tîm, cynnal cyfarfodydd ffrwythlon, a chyfathrebu â chydweithwyr ar draws ffiniau daearyddol. Gwn i'm rhagflaenydd arwain darn sylweddol o waith i wella defnydd Llywodraeth Cymru o e-byst a chadw cofnodion yn electronig. Mae gwaith ar y gweill i uwchraddio darpariaeth ffonau Llywodraeth Cymru ac i gefnogi staff i gysylltu'n fwy effeithiol â'u cydweithwyr gan ddefnyddio negeseua gwib ac argaeledd ar-lein amser real. Pwysleisiodd adborth gan staff a gymerodd ran yn ein peilot gweithio'n hyblyg ym Merthyr yn arbennig bwysigrwydd ofer TG dibynadwy a hygyrch i gefnogi gweithio o gartref ac wrth symud o gwmpas. Bu Bwrdd Llywodraeth Cymru yn profi meddalwedd a chaledwedd sy'n caniatáu i'w gyfarfodydd gael eu cynnal yn 'ddi-bapur'. Rwyf newydd gymeradwyo blwyddyn bellach o'r treial i sicrhau ein bod yn dysgu cymaint â phosibl am y manteision a'r newidiadau o ran sgiliau ac ymddygiad y mae'r math hwn o weithio'n gofyn amdanynt.

**Cadernid**

Er fy mod yn cytuno â'r pwynt a wnaeth Mr Waters yn ystod fy sesiwn ragarweiniol yn ddiweddar nad cyfarpar yw'r peth pwysicaf oll, mae meddu ar yr offer iawn sy'n gweithio'n effeithiol yn hanfodol wrth gwrs ar gyfer gweithio digidol - sy'n f'arwain i at gadernid. Mae'r ymosodiadau seiber digynsail ar sefydliadau ledled y byd wedi pwysleisio unwaith eto'r heriau enfawr sydd ynghlwm wrth sicrhau bod systemau ac offer TG yn gweithio'n iawn, ac yn bennaf oll, sicrhau eu bod yn ddiogel Wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu mwy o wasanaethau digidol a ffyrdd o weithio mae ein dibyniaeth ar y dechnoleg sy'n eu cefnogi wedi cynyddu. Mae effaith methiant technoleg ac yn gynyddol seiberdroseddu yn peri risg llawer uwch i gyflawni ein gwaith nag o'r blaen. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hwn mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn ei systemau craidd ac yn mynnu bod safonau sicrwydd ar gyfer ei chyflenwyr yn cael eu diwallu. Rydym hefyd wedi datblygu'r gweithdrefnau y mae eu hangen i ymateb yn gyflym os bydd digwyddiad. Mae cadernid TG ar Gofrestr Risg Corfforaethol Llywodraeth Cymru a bydd yn parhau'n faes allweddol i'r Bwrdd. Mae datganiad Prif Weinidog ar 16 Mai 2017 hefyd yn rhoi clod dyledus i gadernid TG a'r gwaith ymateb i argyfwng sy'n cael ei wneud gan GIG Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**Manteisio ar Ddata Mawr**

Mae trawsnewid digidol nid yn unig yn arwain at gynhyrchu mwy o ddata, a hynny mewn ffordd fwy amserol, ond mae hefyd yn cynnig ffyrdd newydd o gasglu, rheoli a dadansoddi data. Fel sefydliad mae Llywodraeth Cymru'n parhau i edrych ar ffyrdd o fanteisio'n well ar ddata gan ddefnyddio technegau traddodiadol ac arloesol. Er enghraifft, mae cydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth yn gwneud defnydd arloesol o

setiau data dienw mawr ar ddata GPS a data ffonau symudol ar gyfer dadansoddi trafnidiaeth.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwella ei deunydd ystadegol a gofodol ei hun, ar ffurf y gall peiriant ei darllen, ac fel yr amlinellir yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru, mae wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'r agenda data agored.

Gyda'r cynnydd yn nifer y sefydliadau sy'n cael eu creu ac sy'n cael eu gyrru gan ddata - fel y nodwyd gan Mr Waters - mae potensial i Gymru fod yn ganolbwynt data sydd ymhlith y goreuon yn y byd. Mae cydweithwyr eisoes yn gweithio ar brosiectau gyda Champws Gwyddor Data ONS a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, a thros y blynyddoedd rydym wedi rhoi arian sylweddol i ddatblygu banc data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ein gwaith gyda Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru wedi arwain at gyhoeddiadau sy'n edrych ar ganlyniadau ymyriadau polisi megis cefnogi pobl a thlodi tanwydd trwy gysylltu data - yn ddiogel ac yn foesegol - o wahanol ffynonellau. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn un o bartneriaid arweiniol Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol y DU.

Rwyf yn gobeithio bod y diweddariad hwn wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y technolegau digidol a'r heriau a'r cyfleoedd sydd gysylltiedig â hwy'n uchel ar agenda Llywodraeth Cymru a bod cynnydd yn cael ei wneud. Rwyf yn edrych ymlaen at rannu'r Cynllun Gweithredu Digidol (2017 - 20120) â'r Pwyllgor maes o law.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel : 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • website: www.gov.wales